




Comisiwn **Seilwaith**
Cenedlaethol **Cymru**
National **Infrastructure**
Commission **Wales**

SAFBWYNTIAU AR SEILWAITH Y SECTOR DŴR CRYNODEB GWEITHREDOL



mewn partneriaeth â



Comisiynwyd Arcadis gan Gomisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru (CSCC) i asesu anghenion seilwaith y presennol a'r dyfodol ar draws y sectorau ynni, dŵr, trafndiaeth, digidol ac economi gylchol, ac i nodi'r materion allweddol i sylw Llywodraeth Cymru.

Mae'r crynodeb hwn yn canolbwyntio ar y sector dŵr, gan archwilio ansawdd dŵr (hynny yw ansawdd dŵr yn yr amgylchedd) ac adnoddau dŵr (ffynonellau naturiol dŵr croyw) i nodi'r risgiau a'r blaenoriaethau mwyaf critigol i Gymru.

Mae dŵr yn sector hanfodol, sy'n sail i iechyd y cyhoedd, twf economaidd, natur a hunaniaeth ddiwylliannol yng Nghymru ac yn effeithio arnynt. Mae cyflawni uchelgeisiau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn dibynnu ar fod â system ddŵr gadarn sy'n cael ei rheoli'n dda. Fodd bynnag, mae'r sector dŵr yn wynebu ystod o heriau a phwysau cynyddol o alw newidiol ac effeithiau newid hinsawdd.

Mae'r sector dŵr yn gweithredu o fewn tirwedd reoleiddio gymhleth ar lefel Cymru, y DU ac yn rhyngwladol, gyda chyfrifoldebau wedi'u rhannu rhwng llywodraethau, rheoleiddwyr, cwmnïau dŵr, a rheolwyr tir. Mae angen gweithredu cydgysylltiedig a pholisïau cryfach ar draws pob plaid. Nodir y bydd Adolygiad Cunliffe yn arwain at rai newidiadau.

MATERION A HERIAU CYFREDOL

ANSAWDD DŴR

- Gallai dŵr ffo trefol ac amaethyddol yn gallu cael effaith fwyfwy negyddol ar ansawdd dŵr ac yn effeithio ar natur er gwaethaf buddsoddiad a rheoliadau.
- Dim ond 40% o gyrff dŵr Cymru sy'n cyflawni statws ecolegol "da". Mae'r dull un o bob un y metrig hwn yn golygu y gallai gwelliannau fod wedi'u cuddio.
- Nid yw'r asesiad o statws cemegol cyrff dŵr yng Nghymru yn cynnwys PFAS a mercwri, a allai roi argraff anghywir. Mae'n hanfodol eu bod yn cael eu deall a'u rheoli.
- Mae gorlifoedd storm yn rhyddhau carthion heb eu trin yn ystod glaw trwm, risg a fydd yn dwysáu gyda newid hinsawdd.
- Mae llygredd o ffyrdd, carthffosydd preifat (e.e. tanciau septig), a chamgysylltiadau i raddau helaeth heb ei reoleiddio ac yn cael ei fonitro'n wael.
- Mae arferion ffermio dwysach yn cyfrannu at lygredd maetholion sylweddol yng Nghymru ac er bod rheoleiddio ar waith, mae angen monitro a rheoli hyn.
- Mae systemau draenio cynaliadwy yn darparu manteision, ond mae cyllid ar gyfer eu cynnal yn y tymor hir yn ansicr.
- Mae addasiadau afonydd hanesyddol (argaeau, coredau, cwlferi) yn parhau i gyfyngu ar adferiad ecolegol a symudiad rhywogaethau.

- Mae materion niwtraliaeth maetholion yn effeithio ar gyfleoedd datblygu ac mae rhwystrau rheoleiddiol i'r defnydd o atebion sy'n seiliedig ar natur i gael gwared ar faetholion.

ADNODDAU DŴR

- Er bod Cymru yn wlad wlyb a bod ganddi ddigon o adnoddau dŵr ar hyn o bryd, bydd angen rheolaeth a chyllid cadarn i sicrhau cyflenwadau yn y dyfodol.
- Er bod Cynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr cwmnïau dŵr yn edrych ar y galw am ddŵr gan adeiladau nad yw'n gartrefi, mae angen gwneud mwy i ddeall anghenion adnoddau dŵr ehangach yn well a phwysau yn y dyfodol yn sgil amaethyddiaeth a diwydiant, gan gynnwys sectorau newydd fel canolfannau data a hydrogen.
- Ar hyn o bryd, Cymru sydd â'r cyfraddau uchaf o ran gollyngiadau fesul cwsmer yn y DU, yn rhannol, oherwydd natur wledig y parthau cyflenwi a hyd pibell uchel fesul cwsmer.
- Mae dŵr o ansawdd yfed yn cael ei ddefnyddio'n helaeth at ddibenion nad ydynt yn hanfodol, tra bod cynaeafu dŵr glaw ac aildddefnyddio dŵr yn parhau i gael ei dan-ddefnyddio.
- Mae halogion fel micro-organebau, nitradau a phlaladdwyr, a metelau yn achosi heriau cynyddol wrth drin dŵr yfed.
- Mae llawer o'r seilwaith y mae Cymru yn dibynnu arno i ddarparu dŵr yfed yn heneiddio ac mae'r natur wledig yn golygu bod llawer o waith trin bach, sy'n golygu bod costau cynnal a chadw yn uchel.
- Nid yw dŵr yn cael ei werthfawrogi fel adnodd strategol ar hyn o bryd.



BLE RYDYN NI AR HYN O BRYD


Nifer y cyrff dŵr yng Nghymru sydd â statws ecolegol 'da'

40% yn 2024
O'i gymharu â
16% yn Lloegr.
Yn parhau fel yn 2021 ac i fyny 3% ers 2015.



1 Cyfoeth Naturiol Cymru, Asesiad o ansawdd dŵr yng Nghymru 2024

Mae amrywiaeth o bwysau yn arwain at statws ecolegol gwael:



2 Ymateb i Gweinidog Newid Hinsawdd i Gadeirydd Pwyllgor CCEI (2021)

Ledled Cymru, mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, mae

8 dalgylch niwtraliaeth maetholion

Mae'r rhain yn canolbwyntio ar reoli maetholion i hwyluso datblygiad ond yn aml nid oes cyllid i helpu safleoedd i adfer



3 Cyfoeth Naturiol Cymru, Ein rôl wrth gynllunio a datblygu

Mae'r defnydd o ddŵr (fesul person fesul diwrnod) yn uchel mewn rhannau o Gymru

149 Dŵr Cymru
131 Hafren Dyfrdwy

O'i gymharu ag 137 ledled Cymru a Lloegr (yn 2024/25, cyfartaledd tair blynedd)

4 Discover Water, Faint ddefnyddiwn ni



Mae cwmnïau dŵr yn gweithio'n galed i leihau gollyngiadau.

Cyfraddau gollyngiadau (fesul eiddo fesul diwrnod):

169 Dŵr Cymru
145 Hafren Dyfrdwy

O'i gymharu â chyfartaledd o 109 ledled Cymru a Lloegr (yn 2024/25, cyfartaledd tair mlynedd)

5 Discover Water, Pibellau yn gollwng



Mae cyfraddau gollyngiadau uchel yn adlewyrchu natur wledig parhau cyflenwi a hyd pibell uchel.

CYMRU
9.25m
LLOEGR
5.47m

o bibell prif gyflenwad dŵr fesul cwsmer.

o bibell prif gyflenwad dŵr fesul cwsmer.

6 Dŵr Yfed 2024, DWI, 2025

HERIAU'R DYFODOL

ANSAWDD DŴR

1. Bydd dŵr ffo trefol ac amaethyddol yn effeithio'n gynyddol negyddol ar ansawdd dŵr ac yn effeithio ar natur, er gwaethaf buddsoddiad a rheoleiddio.
2. Heb reoleiddio cryfach, bydd llygredd cemegol (e.e. cemegau a microplastigau am byth) yn dod yn fygythiad mwy sylweddol i ansawdd dŵr.
3. Bydd seilwaith sy'n heneiddio a chynnal a chadw nodweddion fel systemau draenio cynaliadwy (y tu hwnt i'r swm cymudo 30 mlynedd gofynnol) yn herio cyllidebau awdurdodau lleol a chanlyniadau ansawdd dŵr hirdymor
4. Gall twf poblogaeth a galw cynyddol am fwyd ysgogi amaethyddiaeth fwy dwys, a gallai gynyddu llwythi maetholion a risgiau llygredd. Bydd angen rheoleiddio a gorfodi pellach.
5. Bydd newid hinsawdd yn fygythiad cynyddol i ansawdd dŵr gyda llifogydd amlach yn achosi mwy o ddŵr ffo trefol.

ADNODDAU DŴR

1. Gall newid hinsawdd gynyddu'r risg o sychder, pwysau ar gyflenwad dŵr, a chyfraddau gollyngiadau y tu hwnt i'r cyfraddau a ragwelir ar hyn o bryd.
2. Bydd yn dod yn bwysicach rheoli'r anghenion cynyddol a chystadleuol am ddŵr, gan gynnwys anghenion cynyddol o amaethyddiaeth a diwydiant, gan gynnwys anghenion defnyddwyr newydd.
3. Wrth i ddŵr ddod yn fwy prin yn Lloegr, efallai y bydd mwy o bwysau i allforio dŵr.
4. Mae'n debygol y bydd heriau i weithredu atebion sy'n seiliedig ar natur, megis cymryd tir sy'n ofynnol, ei berchnogi a'i gynnal a'i gadw.

Ar draws ansawdd dŵr ac adnoddau dŵr mae angen dull cydgyssylltiedig ar lefel dalgylch o wneud penderfyniadau. Bydd hyn yn sicrhau bod gweithgareddau, materion ac effeithiau yn cael eu hystyried yn gyfannol, ar draws y dalgylch.

Mae angen cynyddu'r defnydd o Atebion sy'n Seiliedig ar Natur hefyd i ddarparu manteision lluosog.

UCHELGAIS YN Y DYFODOL

Mae'r astudiaeth hon yn awgrymu y dylai Cymru fynd ar drywydd system ddŵr gynaliadwy, sy'n seiliedig ar ddalgylchoedd sy'n cefnogi pobl a natur drwy:

- Integreiddio ansawdd dŵr, adnoddau dŵr, bioamrywiaeth, a rheoli tir.
- Mynd i'r afael â llygredd yn gyfannol ar draws amaethyddiaeth, ardaloedd trefol a seilwaith.
- Cyflwyno atebion sy'n seiliedig ar natur ar raddfa fwy ochr yn ochr â seilwaith traddodiadol.
- Buddsoddi mewn cynnal a chadw asedau, gwydnwch, a pharatoi ar gyfer y dyfodol yn y tymor hir.



GWEITHREDOEDD BLAENORIAETH

Mae'r adolygiad hwn wedi nodi ystod o faterion a heriau sy'n gofyn am weithredu pellach.

Prif flaenoriaethau yw:

Deall y galw am ddŵr annomestig ymhellach a'i integreiddio i gynllunio dalgylchoedd.



Sefydlu fframweithiau effeithiol ar lefel dalgylch i reoli pwysau cronus a sicrhau cydymffurfiaeth.



Nodi meysydd blaenoriaeth lle mae angen rheoli ffo amaethyddol wedi'i dargedu.



Modelu effeithiau newid yn yr hinsawdd ar argaeledd a galw dŵr ar draws pob sector.



Diwygio cynllunio rheoli maetholion a chyllid i ddatgloi datblygu cynaliadwy.



Gwella defnydd o atebion sy'n seiliedig ar natur, trwy gymhellion, cefnogaeth a gwell rheoleiddio.



Gweler y prif adroddiad am fanylion llawn am gamau allweddol eraill a nodwyd.



I wybod mwy
sganiwch y cod QR.

